## Atodiad B – Testun y Rheol Sefydlog 31B newydd

**RHEOL SEFYDLOG 31B – Yr amser cofnodi sy'n ymwneud â gweithgarwch cofrestradwy**

31B.1 Pan fydd yn ofynnol i Aelod gofrestru buddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 31.2, rhaid i'r Aelod hwnnw ar yr un pryd, pan fydd y buddiant hwnnw hefyd yn weithgarwch cofrestradwy, roi hysbysiad o dan Reol Sefydlog 31B.

31B.2 At ddibenion Rheol Sefydlog 31B, mae "gweithgarwch cofrestradwy" yn fuddiant cofrestradwy sy'n dod o fewn naill ai:

(a) is-baragraff (i) o baragraff 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 31 (swyddi cyfarwyddwyr cyflogedig), neu

(b) is-baragraff (ii) o'r paragraff hwnnw (cyflogaeth, swyddi, masnachau, proffesiynau neu alwedigaethau)

ac sy'n ymwneud â'r Aelod ei hun (yn hytrach na phartner yr Aelod neu blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod).

**Hysbysiad**

31B.3 Mae hysbysiad i'w roi drwy gyfeirio at y bandiau canlynol:

Band 1: Llai na 5 awr yr wythnos;

Band 2: Rhwng 5 ac 20 awr yr wythnos;

Band 3: Mwy nag 20 awr yr wythnos.

31B.4 Rhaid i'r hysbysiad nodi i ba un o'r bandiau hynny y bydd cyfartaledd nifer yr oriau y bydd yr Aelod yn ei dreulio, (neu y disgwylir iddo ei dreulio) yn gwneud pob gweithgarwch cofrestradwy yr wythnos, yn berthnasol.

31B.5 Os (p'un ai o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau ynteu am unrhyw reswm arall) nad yw'r hysbysiad a wneir gan Aelod mewn perthynas â gweithgarwch cofrestradwy bellach yn gywir, rhaid i'r Aelod, o fewn pedair wythnos, wneud hysbysiad arall o dan Reol Sefydlog 31B.

31B.6 Rhaid rhoi hysbysiad drwy lenwi a llofnodi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd at y diben hwnnw a'i roi i'r Clerc.

**Cyhoeddi**

31B.7 Rhaid i'r Llywydd gadw cofnod o'r hysbysiadau a wneir gan Aelodau o dan Reol Sefydlog 31B a rhaid iddo gyhoeddi'r cofnod a threfnu bod copi ar gael i'w archwilio gan yr Aelodau a'r cyhoedd.

**Ffurf yr hysbysiad a'r cofnod**

31B.8 Caniateir cyfuno'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 31B.6 â'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 31.2.

31B.9 Caniateir cyfuno'r cofnod o hysbysiadau a gedwir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 31B.7 â'r Gofrestr Fuddiannau a gedwir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 31.1.